# Monitro

## Ysgol Parc Y Llan
## Ffordd Y Llan
## Treuddyn
## Sir y Fflint
## CH7 4LN

## Rhif yr ysgol: 6642266

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2011

Arolygwyd Ysgol Parc Y Llan ym Medi 2010 a barnwyd bod angen gwelliant sylweddol arni. Fel rhan o ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol, cynhaliodd Estyn arolygiad dilynol yn Rhagfyr 2011 yn canolbwyntio ar y materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad Adran 28.

### Canlyniad yr ailarolygiad

Bernir bod Ysgol Parc Y Llan wedi gwneud cynnydd da o ran yr argymhellion ar gyfer gwella a nodwyd yn yr arolygiad Adran 28 yn Rhagfyr 2011. O ganlyniad i'r cynnydd hwn, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr o ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol.

### Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion o'r arolygiad yn 2010. Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llawn ag argymhellion 1, 4 a 5 ac mae wedi gwneud cynnydd disgwyliedig o leiaf o fewn yr amser a oedd ar gael i fynd i'r afael ag argymhellion 2, 3 a 6.

### A1 Gwella ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth er mwyn sicrhau synnwyr clir o gyfeiriad ar gyfer gwaith yr ysgol

Aethpwyd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad hwn.

Mae'r awdurdod lleol wedi cefnogi'r ysgol yn dda drwy sicrhau gwasanaethau pennaeth dros dro sydd â phrofiad da o arwain a rheoli. Mae'r pennaeth dros dro

wedi gweithio'n dda iawn gyda chadeirydd y llywodraethwyr, y corff llywodraethol, staff a rhieni i osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol.

Mae'r pennaeth dros dro wedi sicrhau bod yr ysgol wedi edrych eto ar ei datganiad cenhadaeth, ei nodau a'u gwerthoedd, ac mae wedi cynnwys pob un o'r rhanddeiliaid wrth eu datblygu. Mae rhaglen o adolygu polisi ar waith erbyn hyn. Mae polisïau coll wedi'u rhoi yn eu lle, ac mae polisïau'n cael eu rhannu a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys polisi a phrosesau priodol ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'r pennaeth dros dro yn herio tanberfformiad yn effeithiol. Mae wedi datblygu llinellau cyfathrebu clir gyda'r corff llywodraethol, yr awdurdod lleol, staff a rheini, ac mae pob un o'r rhanddeiliaid yn cael gwybod am faterion allweddol sy'n effeithio ar yr ysgol.

Erbyn hyn mae'r uwch dîm rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn chwarae rhan briodol yn natblygiad yr ysgol. Mae'r athrawon yn cyfarfod bob wythnos, fel adrannau ac fel staff cyfan, i drafod materion allweddol. Mae agenda ar gyfer pob cyfarfod ffurfiol. Cedwir cofnodion clir, ac yn gyffredinol mae camau gweithredu'n cael eu nodi a'u dyrannu i staff. Fodd bynnag, nid yw cyfarfodydd eto'n canolbwyntio'n ddigon da ar godi safonau disgyblion nac ansawdd y ddarpariaeth.

### A2 Sefydlu prosesau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu sy'n cynnwys pob un o'r staff a'r rhanddeiliaid

Aethpwyd i'r afael yn rhannol â'r argymhelliad hwn.

Mae'r pennaeth dros dro a'r corff llywodraethol wedi rhoi systemau priodol ar waith i arfarnu gwaith yr ysgol a'i chynnydd yn erbyn targedau yn y cynllun gweithredu. Ymhlith y gweithgareddau arfarnu cafwyd teithiau cerdded dysgu yn canolbwyntio ar yr amgylchedd dysgu a llythrennedd. Mae'r olaf wedi cynnwys y cydlynydd llythrennedd, aelodau o'r corff llywodraethol, yr awdurdod lleol a chyngor yr ysgol. Mae'r daith gerdded llythrennedd wedi arwain at bwyntiau gweithredu ar gyfer athrawon unigol, ac mae wedi helpu gwella arddangosfeydd llythrennedd a'r ddarpariaeth mewn ystafelloedd dosbarth.

Mae athrawon a llywodraethwyr wedi gwella'u dealltwriaeth o ddata'n fawr iawn. Erbyn hyn mae data'n cael ei ddefnyddio'n dda i lywio a gosod targedau ar lefel carfannau ac ar lefel ysgol gyfan.

Mae'r ysgol wedi cynnal arolygon disgyblion a rhieni yn gyson i lywio hunanarfarnu. O ganlyniad i ddadansoddi holiaduron disgyblion, mae'r ysgol yn hyderus fod gan ddisgyblion ddealltwriaeth well o asesu gan gyfoedion, a sut i osod eu targedau eu hunain ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol wedi rhoi trefnlen ar waith ar gyfer monitro ac olrhain, a bydd yn cael ei defnyddio i olrhain cynnydd disgyblion dros gyfnod ac i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r broses hon, ac nid yw wedi effeithio'n llawn ar ddeilliannau disgyblion eto.

Yn ogystal, mae'r ysgol wedi rhoi amserlen ar waith i fonitro ac arfarnu pob un o'r pynciau dros gyfnod o dair blynedd. Mae hwn yn ddatblygiad diweddar iawn ac nid yw'n cynnwys pob aelod o staff eto.

**A3 Gwella'r cynllunio ar gyfer gwella fel ei fod yn cysylltu'n agos â hunanarfarnu ac yn canolbwyntio ar wella'r deilliannau ar gyfer disgyblion**

Aethpwyd i'r afael yn rhannol â'r argymhelliad hwn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r cynllun gwella a ddeilliodd o arolygiad Estyn wedi'i ddefnyddio'n dda i fynd i'r afael â'r argymhellion yn ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol.

O ganlyniad i fonitro, fe wnaeth y pennaeth dros dro nodi'r angen i wella fel blaenoriaeth y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Erbyn hyn mae pob un o'r staff yn gysylltiedig ag ysgrifennu a chyflwyno cynlluniau addysg unigol, ac mae rhaglenni 'dal i fyny' wedi'u cyflwyno. Mae'r ysgol hefyd wedi nodi bod angen gwella darllen ac ysgrifennu ymhellach, ac mae wedi cynllunio hyfforddiant ar gyfer tymor yr haf 2012.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw gynllun gwella ysgol ffurfiol ar waith ar hyn o bryd sy'n nodi camau gweithredu targedig wedi'u meintioli, nac yn canolbwyntio'n ddigon cadarn ar wella'r deilliannau ar gyfer disgyblion.

**A4 Sicrhau bod llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau statudol yn llawn fel eu bod yn darparu cymorth a her briodol i'r ysgol**

Aethpwyd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad hwn.

Mae Cadeirydd newydd y Llywodraethwyr yn cynnig arweinyddiaeth effeithiol a ffocysedig awn i'r corff llywodraethol. Mae wedi cael cefnogaeth dda gan yr awdurdod lleol. Mae Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r pennaeth dros dro yn gweithio'n dda â'i gilydd er budd y disgyblion, rhieni a'r staff.

Mae'r corff llywodraethol newydd yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae agendâu clir i'r cyfarfodydd a chedwir cofnodion gyda phwyntiau gweithredu; dyrennir aelodau o'r corff llywodraethol i fynd ar drywydd camau gweithredu penodol.

Mae'r corff llywodraethol newydd wedi cael hyfforddiant helaeth a pherthnasol i sicrhau bod y gallu gan yr aelodau i gynnig cymorth a her effeithiol i arweinyddiaeth yr ysgol. Erbyn hyn mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o berfformiad yr ysgol drwy ddadansoddi data'n rheolaidd a thrwy gyfranogi mewn cyfarfodydd staff, digwyddiadau hyfforddi eraill a gweithgareddau'r ysgol. Mae llawer o'r llywodraethwyr bellach wedi'u cysylltu â meysydd pwnc, ac maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i siarad â'r athrawon a disgyblion. Maent yn mynd ati i hyrwyddo'r ysgol yn y gymuned ac yn gwneud cysylltiadau effeithiol gyda phob un o'r rhanddeiliaid.

**A5 Sicrhau bod y corff llywodraethol yn gwbl ymwybodol o'i gyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu a bod pob un o'r staff yn deall y gweithdrefnau ar gyfer delio â materion diogelu**

Aethpwyd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad hwn.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu erbyn hyn, gan gynnwys y staff penodedig angenrheidiol fel pwyntiau cyswllt cyntaf ar gyfer amddiffyn plant.  Mae pob un o'r llywodraethwyr a'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant ar lefelau priodol mewn diogelu.

### A6 Gwella safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1

Aethpwyd i'r afael yn rhannol â'r argymhelliad hwn.

Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2010-2011, llwyddodd pob disgybl yng nghyfnod allweddol 1 i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.  Fe wnaeth canlyniadau'r ysgol eu rhoi yn y 25% uchaf o gymharu â lefelau perfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg.  Roedd yr ysgol yn y safle cyntaf o gymharu ag ysgolion eraill yn ei theulu.  Roedd perfformiad y disgyblion ar y lefel uwch yn briodol o gymharu â pherfformiad y teulu o ysgolion.  Fodd bynnag, dim ond un disgybl a gyflawnodd lefel 3 mewn ysgrifennu, ac ni lwyddodd unrhyw fachgen i gyflawni lefel 3 yn Saesneg.  Mae cynnydd a safonau disgyblion yn nosbarth derbyn y Cyfnod Sylfaen yn anfoddhaol.  Nid yw medrau gwrando, ffoneg ac ysgrifennu llawer o'r disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol.   Cafwyd cynnydd annigonol ers Medi 2011.

Fodd bynnag, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol.  Maent yn gallu defnyddio ystod o strategaethau i ddatrys geiriau anghyfarwydd, er nad yw dealltwriaeth llawer o ddisgyblion o'r berthynas rhwng sain a symbolau wedi'i datblygu'n ddigon da.  Mewn ysgrifennu, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod da o eirfa i ddenu diddordeb y darllenwr.  Mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth ddatblygol o atalnodi sylfaenol, ac maent yn gallu trefnu digwyddiadau mewn stori.  Mae medrau cyflwyno wedi gwella dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf, ond maent yn dal yn gymharol wan; gwan hefyd yw gallu'r disgyblion i sillafu geiriau cyffredin.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, dylai'r ysgol:

A1 godi safonau disgyblion oed derbyn, yn enwedig mewn cyfathrebu;

A2 parhau i godi safonau darllen ac ysgrifennu pob disgybl erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen;

A3 sicrhau bod cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys targedau y gellir eu mesur sy'n canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau'r disgyblion; a

A4 chynnwys pob un o'r staff ymhellach yn y prosesau monitro ac arfarnu.